EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION AIL GYFARFOD AR HUGAIN Y CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 08 Gorffennaf 2021

LLEOLIAD: Microsoft Teams (cyfarfod rhithwir)

Presennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Paul Croke
David Williams	Steve Drowley
Gwawr Taylor	Rosemary Lait
Anne Pitman	Kelly Edwards
Kevin Pascoe	Clare Jones
Eithne Hughes	Jane Setchfield

Ymddiheuriadau:
Berni Tyler

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Lloyd Williams	Swyddog Cyfathrebu (arsylwi)
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (arsylwi)
Amy Pope	Rheolwr y Swyddfa (cofnodion)

Cyn y cyfarfod, bu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn annerch y Cyngor ac yn cynnal sesiwn holi ac ateb gydag aelodau.

1. Croeso a sylwadau agoriadol

1.1 Croesawodd Angela Jardine *(Cadeirydd),* yr aelodau a'r swyddogion i ail gyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

1.2 Cafwyd yr ymholiadau gan Berni Tyler.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Datganodd Kelly Edwards ddiddordeb yn eitem 15 ar yr agenda fel un o weithwyr Colegau Cymru.

2.2 Datganodd Steve Drowley ddiddordeb yn eitem 18 ar yr agenda fel Cadeirydd ETS Cymru.

2.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau pellach o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth ac Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd ei bod hi a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 7 Mehefin 2021. Roedd y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol; roeddent wedi cyfleu safbwyntiau'r saith grŵp cofrestreion ac wedi ei annog i ystyried y gweithlu cyfan yn ystod ei dymor. Nododd ddiolch arbennig i Gynorthwy-ydd Gweithredol y Prif Weithredwr am sicrhau'r cyfarfod yn gynnar yn nhymor y Gweinidog newydd.

3.2 Nododd ei bod wedi mynychu Rhwydwaith Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Academi Cymru sydd newydd ei sefydlu. Roedd y cyfarfod wedi canolbwyntio ar lesiant gydag amrywiol sesiynau hyfforddi ar y pwnc. Ym mis Medi 2021 y byddai'r cyfarfod nesaf.

3.3 Hysbysodd y Cyngor fod nifer o gyfarfodydd a fforymau newydd yn cael eu sefydlu o ganlyniad i ailstrwythuro rolau o fewn Llywodraeth Cymru. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau hefyd, er gwaethaf y newidiadau, ei bod hi a'i swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion.

4. Derbyn hysbysiad o unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'er gwybodaeth' ar yr agenda (19-23)

4.1 O ran eitem 22 ar yr agenda, nododd y Prif Weithredwr farwolaeth drist Gareth Pierce, a fu'n aelod o'r IWPRB ac a wnaeth gyfraniad nodedig i sector addysg Cymru.

4.2 Cymeradwyodd y Prif Weithredwr y papur yn eitem 20 ar yr agenda, gan nodi y byddai'r PDP yn cael ei integreiddio cyn bo hir i nifer o fentrau cenedlaethol gan gynnwys darpariaeth ADY a'r rhaglen Meistr mewn Addysg yn dechrau o fis Medi 2021. Dywedodd fod 10,000 o weithwyr cymorth dysgu bellach wedi creu proffiliau.

4.3 Ni nodwyd unrhyw faterion.

5. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 12 Mawrth 2021

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 12 Mawrth 2021. Roedd yr Aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

5.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 18 Mai 2021

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a nododd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt nad oeddent wedi'u cynnwys yn ddiweddarach ar yr agenda.

6.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 18 Mai 2021

7.1 Cyflwynodd Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio y cofnodion a nododd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt nad oeddent wedi'u cynnwys yn ddiweddarach ar yr agenda.

7.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

8. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 16/21

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am amrywiol faterion nad oeddent wedi'u cynnwys mewn mannau eraill ar yr agenda, a gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

8.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff pedwar, adroddodd fod swyddogion wedi parhau i ddal ati gyda'u trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ymestyn cofrestriad / rheoleiddio i nifer o grwpiau nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru ar hyn o bryd, gan gynnwys staff ysgolion annibynnol a staff gwaith ieuenctid cyflogedig heb gymwysterau. Nododd fod swyddog penodol wedi'i benodi yn Llywodraeth Cymru i archwilio manylion y ddeddfwriaeth ac roedd Liz Brimble *(Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer)* wedi cyfarfod â'r unigolyn yn gynharach yr wythnos honno i gyfleu safbwyntiau CGA. Byddai'n parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd yn hyn o beth.

8.3 Fel y nodwyd ym mharagraff pump, adroddwyd bod y Llythyr Cynnig Grant i ariannu'r agweddau ar waith CGA a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru wedi'i lofnodi ar 31 Mawrth 2021. Roedd yn cynnwys 11 o brosiectau / meysydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

8.4 Rhoddodd y Prif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd o ran recriwtio dau aelod newydd o'r Cyngor i lenwi'r swyddi gwag a fyddai'n cael eu gadael gan Ian Roberts a Paul Croke. Atgoffwyd yr Aelodau bod Llywodraeth Cymru yn penodi aelodau'r Cyngor drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Y gobaith oedd y byddai'r ddau aelod newydd yn dechrau ar eu gwaith ar 1 Hydref 2021. Ymhellach, diolchodd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i Paul am ei wasanaeth ar y Cyngor. Ategodd yr Aelodau eu diolchiadau a'u gwerthfawrogiad hefyd am gefnogi llawer o'r aelodau mwy newydd a benodwyd i'r Cyngor yn 2019.

8.5 Yng ngoleuni'r pwyntiau a godwyd gan swyddogion a'r Cadeirydd, roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol ar fater cofrestru a rheoleiddio ymarferwyr gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar. Fel yr adroddwyd ym mharagraff 12, roedd y tendr wedi'i gyhoeddi a byddai'r aelodau'n parhau i gael eu diweddaru. Nododd un aelod brofiad blaenorol yn y maes hwn a'r llu o gymhlethdodau cysylltiedig. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cyfarfod am sesiwn ychwanegol i drafod y mater ymhellach unwaith i gwmpas yr adolygiad gael ei sefydlu.

8.6 Ymhellach i ddiweddariad cynharach y Cadeirydd, cyfeiriodd y Prif Weithredwr yr aelodau at baragraffau 22-24 a oedd yn amlinellu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd / a drefnwyd gyda chynrychiolwyr y gwrthbleidiau.

8.7 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff 27, adroddwyd bod y siaradwr ar gyfer digwyddiad Siarad yn Broffesiynol nesaf y Cyngor wedi'i sicrhau. Byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2022.

8.8 Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarparwyd ym mharagraff 32, adroddwyd bod chwaer-Gyngor CGA, GTCNI yng Ngogledd Iwerddon, wedi'i roi mewn mesurau arbennig am yr ail waith. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi rhoi tystiolaeth i adolygiad annibynnol a gofynnwyd iddynt hefyd gyfarfod yn uniongyrchol â Gweinidog Addysg Gogledd Iwerddon

8.9 Mewn ymateb i gais am wybodaeth bellach am y weminar ar hil a adroddwyd ym mharagraff 28, nododd y Prif Weithredwr fod CGA wedi cyflwyno nifer o brosiectau i Lywodraeth Cymru yn benodol ar gynrychiolaeth hil a grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd y syniad i gynnal gweminar wedi datblygu'n organig o'r gwaith hwn ac yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol CGA.

8.10 Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad.

9. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2020-21 CGA 17/21

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn nodi perfformiad gweithredol a sefyllfa ariannol CGA ar gyfer 2020-21. Cyflwynodd Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) a Lisa Winstone *(Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, yn y drefn honno.

9.2 Adroddodd Lisa Winstone fod Archwilio Cymru wedi cwblhau ei archwiliad allanol ac wedi rhoi barn archwilio ddiamod i CGA. Roedd angen dau fân addasiad archwilio, a oedd wedi bod yn syml i'w hymgorffori. Roedd y Cyfrifon wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin ac ar eu hargymhelliad fe'u cyflwynwyd i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

9.3 Cadarnhaodd Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu i'r aelodau fod y Pwyllgor wedi dadansoddi'r Cyfrifon yn drylwyr yn eu cyfarfod ac wedi nodi'r hyn a gyflawnwyd o dderbyn y farn archwilio ddiamod. Diolchodd i Lisa Winstone a'r swyddogion am y gwaith a wnaed.

9.4 Yna cyflwynodd Bethan Stacey yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn amlinellu cynnydd yn erbyn y targedau a'r dangosyddion perfformiad yng Nghynllun Gweithredol y Cyngor a dogfennau ategol eraill. Nododd fod yr Adroddiad wedi'i gyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor Gweithredol i'w adolygu.

9.5 Canmolodd yr Aelodau'r cynnwys cynhwysfawr a'r ffeithluniau a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad Blynyddol. Wrth ymateb i ymholiad aelod, cadarnhaodd Bethan Stacey y byddai'r Adroddiad yn ategu amrywiol gyhoeddiadau a chyfathrebu ymgysylltu CGA drwy gydol y flwyddyn i ddod.

9.6 Roedd yr Aelodau'n fodlon cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2020-21 a diolchodd i swyddogion am y gwaith a gwblhawyd.

10. Adroddiad cydraddoldeb blynyddol drafft 2020-21 ac adroddiad monitro drafft safonau'r Gymraeg 2020-21 CGA 18/21

10.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiadau hyn a oedd wedi'u trafod yn flaenorol a'u hargymell wedyn i'r Cyngor eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol. Tynnodd sylw'r aelodau'n arbennig at yr adroddiad cydraddoldeb blynyddol drafft 2020-21 yn Atodiad A a nododd mai dyma'r tro cyntaf i CGA lunio adroddiad annibynnol ar y pwnc hwn. Nododd fod y ddau adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion craidd yn y meysydd hyn.

10.2 Ni chododd yr Aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r ddau adroddiad.

11. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer (gan gynnwys adroddiad blynyddol) CGA 19/21

11.1 Cyflwynodd Liz Brimble *(Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer)* y papur hwn a oedd yn cynnwys diweddariad cyffredinol ar waith Priodoldeb i Ymarfer CGA a'r adroddiad blynyddol a gyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

11.2 Fel diweddariad i'r ffigurau yn y papur, adroddodd fod 21 gwrandawiad wedi'u cynnal hyd yma, bod 28 wedi'u trefnu gyda 11 arall i'w trefnu. Roedd hyn i raddau helaeth yn unol â'r ffigur a gyllidebwyd o 65. Dywedodd y byddai gwrandawiadau'n parhau o bell ac y byddai swyddogion yn adolygu hyn yn barhaus yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r pandemig.

11.3 Gan dynnu sylw'r aelodau at baragraff naw, nododd fod pum cyfarfod addasrwydd wedi'u trefnu.

11.4 Gan gyfeirio at baragraff 11, dywedodd Liz Brimble fod CGA wedi derbyn Apêl yn yr Uchel Lys ar 9 Mehefin 2021 yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer ym mis Mai 2021. Nododd fod swyddogion yn cysylltu â'i ymgynghorwyr cyfreithiol ac y byddai'r aelodau'n cael eu diweddaru ar y mater wrth iddo fynd yn ei flaen.

11.5 Hysbyswyd y Cyngor bod hyfforddiant blynyddol Priodoldeb i Ymarfer i aelodau wedi'i ddarparu o bell ar 24 Mehefin 2021, gyda hyfforddiant hanner diwrnod ychwanegol y Cadeirydd ar 25 Mehefin 2021. Roedd y ddwy sesiwn wedi denu adborth cadarnhaol ynghyd ag ymateb calonogol cyffredinol i'r ffordd yr oedd swyddogaeth Priodoldeb i Ymarfer CGA wedi gweithredu o bell dros y 12 mis diwethaf.

11.6 Mewn ymateb i ymholiad aelod, nododd Liz Brimble fod cynnydd bach wedi bod mewn achosion yn ymwneud â chamymddygiad ar-lein fel y disgwylid wrth symud i ddysgu ar-lein drwy gydol Covid. Nododd y canllawiau arfer da a gyhoeddwyd gan CGA yn ymwneud yn benodol ag ymddygiad ar-lein a chynnal ffiniau proffesiynol.

11.7 Yna, cyfeiriodd Liz Brimble yr aelodau at yr adroddiad blynyddol Priodoldeb i Ymarfer a argymhellwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo yn dilyn trafodaethau gan y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio yn ei gyfarfod diwethaf.

11.8 Wrth ymateb i ymholiad am y ffigurau a adroddwyd, eglurodd nad oedd modd cymharu'r ystadegau â rheoleiddwyr addysgol eraill oherwydd y gofynion statudol amrywiol ar gyfer atgyfeiriadau a oedd yn berthnasol i bob corff rheoleiddio. Nododd ei bod yn cyfarfod yn rheolaidd â'i chymheiriaid mewn chwaer-Gynghorau i gael trafodaethau ehangach.

11.9 Roedd y Cyngor yn fodlon derbyn y diweddariad a chymeradwywyd yr adroddiad blynyddol Priodoldeb i Ymarfer i'w gyhoeddi.

12. Adolygu'r Gofrestr Risg CGA 20/21

12.1 Cyflwynodd Lisa Winstone y papur hwn a chyflwynodd Gofrestr Risg gyfredol CGA. Hysbysodd yr aelodau fod y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan uwch reolwyr bob chwarter, ei thrafod gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ym mhob cyfarfod a'i chyflwyno'n flynyddol i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

12.2 Adroddwyd, ar ei hadolygiad diwethaf, fod y risg yn gysylltiedig â CGA yn gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth annibynnol i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) wedi'i chau gan fod y Corff bellach yn ei drydedd flwyddyn a bod rôl annibynnol CGA wedi'i gwreiddio'n llawn.

12.3 Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol mewn perthynas â Covid gan fod unrhyw bryderon o'r fath eisoes wedi'u datrys yn y Gofrestr Risg ac felly roedd parodrwydd y Cyngor i dderbyn yn parhau i fod yn wrth-risg.

12.4 Roedd hyfforddiant ar reoli risg a pharodrwydd i dderbyn risg wedi'i drefnu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Chraffu cyn ei gyfarfod ym mis Medi a fyddai'n cael ei ddarparu gan archwilwyr mewnol y Cyngor, TIAA.

12.5 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r Gofrestr Risg.

13. Adolygiad o'r Cyngor a thrafodaeth am ddiwrnod hyfforddi blynyddol yr aelodau CGA 21/21

13.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a gasglwyd o broses adolygu flynyddol yr aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gydweithio i gwblhau'r adolygiadau blynyddol o bell am yr ail flwyddyn. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r sgôr a'r adborth cadarnhaol a ddeilliodd o'r adolygiad.

13.2 O ganlyniad i'r adborth a gafwyd o'r broses adolygu y flwyddyn flaenorol, roedd yn well gan yr aelodau gael diwrnod hyfforddi blynyddol yn hytrach na sesiynau hyfforddi yn union cyn neu ar ôl cyfarfodydd y Cyngor. Cynhaliwyd y diwrnod hyfforddi blynyddol cyntaf ar 15 Ebrill 2021. Gwahoddodd y Prif Weithredwr yr aelodau i drosglwyddo eu hadborth ar y dull gweithredu agoriadol hwn.

13.3 Cytunodd yr Aelodau fod y dull yn well a theimlwyd bod yr holl sesiynau hyfforddi yn werthfawr i'w rolau llywodraethu. Roedd y papur briffio gan Alan Clamp, Prif Weithredwr yr

Awdurdod Safonau Proffesiynol o ddiddordeb arbennig a gofynnwyd i ragor o sesiynau gan reoleiddwyr eraill gael eu hystyried ar gyfer diwrnodau hyfforddi yn y dyfodol.

13.4 Dywedodd llawer o aelodau y byddai'n well ganddynt i ddiwrnodau hyfforddi yn y dyfodol gael eu cynnal wyneb yn wyneb er eu bod yn cydnabod nad oedd hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth ynghylch Covid. Nodwyd bod hyn yn fater i'w ystyried ar gyfer y diwrnod hyfforddi nesaf a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill 2022.

13.5 Crynhodd y Cadeirydd y sylwadau a wnaed a gofynnodd i'r aelodau wneud unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer hyfforddiant sydd ar y gorwel drwy'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol.

14. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 22/21

14.1 Cyflwynodd Liz Brimble yr adroddiad cynnydd hwn a oedd yn rhoi diweddariad ar waith CGA mewn perthynas â Chofrestru a gweinyddu dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

14.2 Nododd fod y gwaith o gasglu'r ffi flynyddol ar gyfer 2021-22 wedi'i gwblhau heb unrhyw anawsterau a gwahoddwyd yr aelodau i nodi bod cyfanswm nifer y cofrestreion yn unol â'r ffigurau a gyllidebwyd fel yr amlinellir yn Atodiad A.

14.3 Gan gyfeirio at baragraffau 10-11, nododd fod nifer o welliannau gwasanaeth wedi digwydd yn dilyn yr adolygiad beirniadol o gofrestru, cymwysterau, gwasanaethau sefydlu a phrosesau a gynhaliwyd y llynedd. Nododd fod nifer o'r gwelliannau hyn yn parhau a thynnodd sylw penodol at y symud i gyhoeddi tystysgrifau SAC ar-lein er mwyn caniatáu mynediad haws i ymarferwyr.

14.4 Darparwyd diweddariad cynnydd ar y posibilrwydd o gaffael system cronfa ddata amgen ym mharagraff 19 a dywedodd Liz Brimble wrth yr aelodau fod y prosiect cwmpasu cychwynnol wedi'i gwblhau ac y byddai'n cael ei adolygu gan uwch dîm rheoli'r Cyngor yn fuan.

14.5 Cyfeiriodd Liz Brimble yr aelodau at baragraffau 25 a 26 a oedd yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi datblygu Bil Cymwysterau Proffesiynol drafft a oedd â'r potensial i danseilio deddfwriaeth Cymru mewn perthynas â chydnabod cymwysterau gan ymgeiswyr o dramor. Esboniodd fod CGA wedi ysgrifennu'n ffurfiol at yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn nodi ei bryderon ynglŷn â'r Bil drafft. Derbyniwyd ymateb gan BEIS a oedd yn tawelu'r pryderon. Ar gais swyddogion Llywodraeth Cymru, roedd yr ohebiaeth wedi'i rhannu â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

14.6 Roedd yr Aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

15. Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu CGA 23/21

15.1 Cyflwynodd Liz Brimble y papur hwn ac atgoffodd yr aelodau, yn dilyn y drafodaeth gyda'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020, y byddai CGA yn cynnal arolwg cenedlaethol o'r gweithlu yn nhymor y gwanwyn. Yn dilyn y drafodaeth honno, ar ddechrau mis Ionawr 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru i CGA arwain y gwaith o gynnal yr arolwg ar ei rhan.

15.2 Nododd fod yr arolwg wedi cau ar 14 Mai 2021 a bod y drafft cyntaf o'r canfyddiadau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan swyddogion. Mewn ymateb i ymholiad y Cadeirydd, cadarnhaodd Liz Brimble y byddai'r adroddiad yn cael ei ddarparu i aelodau'r Cyngor.

15.3 Nododd yr Aelodau'r papur.

16. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CGA 24/21

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn rhoi adroddiad cynnydd i'r aelodau am rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

16.2 Cyfeiriodd yr aelodau at baragraffau 3-7 a roddodd ddiweddariad cynhwysfawr ar y partneriaethau a'u cyrsiau achrededig, gan gynnwys y rhai a gafodd achrediad gydag amodau. Nododd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf.

16.3 Hysbysodd Bethan Stacey yr aelodau fod swyddogion wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at oblygiadau bod â mwy o raglenni cynradd yn y system AGA yng Nghymru yn erbyn dosbarthiad dyraniadau derbyn myfyrwyr fel yr amlinellir ym mharagraff saith.

16.4 Atgoffwyd y Cyngor ei bod wedi'i nodi mewn deddfwriaeth bod y Bwrdd Achredu AGA'n monitro cydymffurfiaeth yr holl raglenni achrededig â'r Meini Prawf drwy gydol cyfnod yr achrediad. Roedd proses fonitro ddrafft wedi'i drafftio gyda mewnbwn gan nifer o randdeiliaid.

16.5 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau ac roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

17. Hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg CGA 25/21

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn rhoi adroddiad cynnydd i'r aelodau am rôl CGA o ran hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg. Dywedodd fod gwefan Addysgwyr Cymru wedi'i lansio ar 7 Mehefin 2021 a'i bod ar hyn o bryd yn dangos dros 80 o swyddi byw.

17.2 Atgoffodd yr atgoffa fod cynnwys cychwynnol y wefan wedi'i gyflenwi gan Cowshed. Ar hyn o bryd roedd swyddogion yn caffael cyflenwr i ddatblygu cynnwys ychwanegol i hyrwyddo gyrfaoedd fel gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion. Y gobaith oedd y byddai'r cynnwys hwn yn cael ei gwblhau a'i lanlwytho i'r wefan erbyn diwedd Awst 2021.

17.3 Roedd yr Aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

18. Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru CGA 26/21

18.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn rhoi adroddiad cynnydd i'r aelodau ar gyflawni'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Gwahoddodd unrhyw sylwadau neu ymholiadau gan yr aelodau yn sgil yr adroddiad cynhwysfawr.

18.2 Nododd un aelod y cynnydd cadarnhaol a wnaed yn y maes a'r dull rhagweithiol a fabwysiadwyd gan swyddogion CGA.

18.3 Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad.

19-23. Eitemau er gwybodaeth

Derbyniodd yr Aelodau y papurau "er gwybodaeth" ar:

- Adolygiad o Flwyddyn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu **(CGA 27/21)**
- Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) **(CGA 28/21)**
- Adroddiad cynnydd cyllido sefydlu **(CGA 29/21)**
- Ysgrifenyddiaeth i'r IWRPB **(CGA 30/21)**
- Adolygiad ar safonau proffesiynol a phrosiectau tymor byr eraill Llywodraeth Cymru **(CGA 31/21)**

Yna symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.